**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 415**
**19 Mawrth, 2018, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Guto Harri | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Llion Iwan | (Pennaeth Dosbarthu Cynnwys) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 6 |
| | Steve Thomas | (Ymgynghorydd Strategaeth a Pholisi) – eitem 8 |
| | Rhidian Dafydd | (Rheolwr Rhaglen Waith Yr Egin) – eitem 9 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod rhif 414 a gynhaliwyd 13eg Chwefror**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 414.

Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 414**

4.1.2 – Nododd GW ei fod wedi cysylltu gyda JD i drafod gwahoddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddigwyddiadau S4C yn y Sioe Amaethyddol.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu a nodwyd fod y gofrestr wedi ei diweddaru yn dilyn derbyn sylwadau cynhwysfawr gan OE.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Esboniodd y Cadeirydd y bydd trefn wahanol i rediad y cyfarfod oherwydd

argaeledd Aelodau yn ystod y dydd, gyda phynciau sydd angen penderfyniad yn cael blaenoriaeth.

Penderfynwyd ar y drefn ganlynol ar gyfer agenda'r cyfarfod:

- Yr Adolygiad Annibynnol;
- Cyllideb 2018/19;
- Cynllun Ariannol 5 mlynedd;
- Loteri Cymru a materion Masnachol;
- Strategaeth ddigidol newydd; a
- Gwaith craffu'r Pwyllgor Adleoli a Chydleoli dan gadeiryddiaeth JD.

5.1 **Penodiadau**

Nodwyd fod tymor presennol JD yn dod i ben ar ddiwedd fis Mawrth, ac er bod cais wedi ei gyflwyno i DCMS i ymestyn ei dymor, nid oedd penderfyniad wedi ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol hyd yma, er bod swyddogion wedi nodi fod y cais yn un cryf. Gobeithir y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno i ymestyn tymor JD.

Bydd cyfweliadau ar gyfer aelodau newydd yn cael eu cynnal ym mis Ebrill.

5.2 **Yr Adolygiad**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am yr Adolygiad a'r hyn a ddisgwylir yn adroddiad yr Adolygydd. Roedd yn debygol o argymell y newidiadau i gylch gorchwyl cyhoeddus, digidol a masnachol S4C y mae S4C wedi bod yn pwyso amdanynt. Y bwriad oedd i S4C gynnig ymateb cyffredinol, cryno ar ddiwrnod cyhoeddi'r Adroddiad ac ymateb y Llywodraeth, ac yna i'r Cadeirydd gyflwyno ymateb mwy cynhwysfawr mewn noson a drefnir gan yr RTS.]

Awgrymodd ECS y byddai'n fodlon camu i lawr o aelodaeth Bwrdd yr Awdurdod pe byddai hynny'n hwyluso'r broses o drafod unrhyw drefniadau ariannu arfaethedig gyda'r BBC. Nododd gweddill y Bwrdd yn unfrydol nad oeddynt yn dymuno i ECS i ystyried camu i lawr, a bod ei phrofiad a'i chyngor yn allweddol i S4C yn ystod y cyfnod sydd i ddod.

6. **Cyllideb 2018-19 a Chynllun Ariannol Drafft 5 mlynedd**

Cyflwynodd SW gyllideb drafft diwygiedig ar gyfer 2018-19 ynghyd â scenarios ar gyfer cynllun ariannol 5 mlynedd.

Nodwyd cost yr amserlen ar gyfer 2018/19. Esboniwyd fod y cynnydd yn bennaf oherwydd darpariaeth ar gyfer costau hawliau rygbi Pro14.

**[Crynodeb:** Roedd y gwaith cynllunio ar gyfer amserlen 2019/20 yn parhau, a bydd AR yn cyflwyno diweddariad yng nghyfarfod Bwrdd yr Awdurdod ym mis Ebrill. Nodwyd bod angen ystyried perfformiad y gwasanaeth a blaenoriaethau'r strategaeth Cynnwys yng nghyd-destun yr holl fframwaith o fesuryddion perfformiad.]

Awgrymwyd y gellid arbed arian maes o law wrth ddirwyn y gwasanaeth lliniol i ben, ond gan nad oedd amserlen realistig ar gyfer hyn, ac y gall fod yn 5, 10, 15 neu 20 mlynedd nid oes modd cynllunio ar gyfer arbedion o'r fath.

**Cyllideb 2018-19**

**Cymeradwywyd Cyllideb 2018-19 gan y Bwrdd.**

**Cynllun Ariannol 5 Mlynedd**

Nodwyd fod y Bwrdd yn cefnogi'r cyfeiriad strategol a amlinellwyd yn y senario cyntaf, yn amodol ar drafodaeth bellach ar y Strategaeth Cynnwys a'r Strategaeth Ddigidol, ac y byddent yn awyddus i dderbyn rhagor o wybodaeth parthed gallu S4C i gyflawni ei strategaeth o dan y senario cyntaf yng nghyd-destun yr ymateb i'r Adolygiad, a phenderfyniadau ariannol y DCMS.

7. **Loteri Cymru**

Cyflwynodd EM ddiweddariad ynglŷn â sefyllfa Loteri Cymru. Roedd diweddariadau ysgrifenedig wedi eu cyflwyno i Fwrdd yr Awdurdod drwy gyfrwng e-bost, ac roedd y Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo elfen o wariant pellach ers cyfarfod misol diwethaf y Bwrdd drwy gyfrwng e-bost.

**[Crynodeb:** Esboniodd EM fod y Bwrdd Masnachol wedi cyfarfod ar nifer o achlysuron yn ystod y mis i ystyried yr opsiynau. Cafwyd trafodaeth am yr opsiynau a amlinellwyd. Nodwyd penderfyniad Bwrdd yr Awdurdod parthed Loteri Cymru yn ei gyfarfod ym mis Chwefror sef "bod Bwrdd yr Awdurdod o'r farn na ddylai'r Bwrdd Masnachol ymrwymo i unrhyw ariannu pellach".

Esboniwyd fod y Bwrdd Masnachol wedi cymryd cyngor arbenigwyr ariannol er mwyn sicrhau fod S4C yn gweithredu'n gyfreithlon ac yn briodol. Mater i gyfarwyddwyr Loteri Cymru oedd sicrhau fod y cwmni ei hun yn gweithredu'n gyfreithlon. Roedd Aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn awyddus i sicrhau fod mater Loteri Cymru yn dod i ben cyn gynted â phosibl.]

8. **Strategaeth S4C – Cynnwys Cymraeg ar lwyfannau digidol**

Cyflwynodd LlI a ST ddiweddariad parthed y cynlluniau ar gyfer gweithredu'r strategaeth ddigidol newydd. Esboniwyd fod y cynlluniau yn cynnwys:

- Symleiddio Clic, a gwella dulliau o ganfod cynnwys S4C o fewn Clic;
- Personoleiddio – cyflwyno'r gallu i wylwyr gofrestru i Clic, a fyddai'n cynnwys profiad personol iddynt, gan gynnwys argymhellion rhaglenni, y gallu i wylio ar draws dyfeisiau, gwylio cynnwys am gyfnodau hirach, a mynediad i gynnwys unigryw a chynnwys archif; a
- Datblygu 'sianelau' digidol ar-lein o dan faner Clic, i ddenu cynulleidfaoedd penodol, megis Hansh ar gyfer cynulleidfa iau, a CiwTiwb ar gyfer plant a rhieni.

Roedd Bwrdd yr Awdurdod yn croesawu'r bwriad i ddatblygu cynnig digidol S4C, a'r cyfeiriad oedd dan sylw ac yn awyddus iawn i weld strategaeth yn cael ei datblygu a fydd yn cyfuno llwyfannau, marchnata a hyrwyddo, y defnydd o ddata a'r strategaeth cynnwys.

Holwyd a oedd risg y byddai canolbwyntio ar frandiau unigol megis Hansh, yn glastwreiddio prif frand S4C? Esboniwyd fod swyddogion wedi ystyried hyn, a'u bod o'r farn fod angen sicrhau fod unrhyw is-frand yn cael ei gysylltu'n amlwg gyda brand S4C.

9. **Cynllun Adleoli a Chydleoli - Staffio**

Cyflwynodd RhD ddiweddariad ar elfennau staffio'r cynlluniau adleoli a chydleoli.

**[Crynodeb:** Trefnwyd proses gyfathrebu ddiwedd Ionawr i'r holl staff sy'n cael eu heffeithio gan adleoli yn eu hatgoffa o'r pecynnau adleoli a'r cynllun gweithio hyblyg. Roedd sesiynau un i un wedi'u cynnal gyda mwyafrif y staff dan sylw er mwyn iddynt nodi os oeddynt am symud i Gaerfyrddin, i adael S4C neu i fanteisio ar y cynllun treialu (TBYB). Roedd risg wedi ei adnabod i barhad busnes S4C gyda'r cynllun TBYB yn ystod y cyfnod yn dilyn y symud i Gaerfyrddin. Roedd y swyddogion wedi bod yn ystyried opsiynau amrywiol er mwyn lleihau'r risg a chyflwynwyd tri opsiwn i Fwrdd yr Awdurdod.

**Yn dilyn y drafodaeth, penderfynodd Fwrdd yr Awdurdod i gymeradwyo Opsiwn 3.**

10. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 3**

Cyflwynodd GW yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer Chwarter 3.

**[Crynodeb**: Roedd ymgyrchoedd wedi eu trefnu ar gyfer nifer o gyfresi yn ystod y chwarter a chroesawyd y gydnabyddiaeth i'r deunydd hyrwyddo Siôn Corn dros y Nadolig, gan nodi'r bwriad i'w hail-ddefnyddio'r Nadolig nesaf.]

11. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio, a chyfeiriwyd yn benodol at y canlynol.

**[Crynodeb:** Nodwyd fod arwyddion cadarnhaol i'w gweld o ran yr amserlen newydd, gyda rhaglenni awr ar nos Fawrth a nos Iau yn dechrau ennill eu plwyf. Roedd nos Sul hefyd yn perfformio'n dda. Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd drama wreiddiol o fewn yr amserlen ac eglurwyd bod gwaith ar y gweill er mwyn manteisio ar ragor o gydgynyrchiadau ar draws yr arlwy.]

12. **Adroddiadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau**

**Bwrdd Masnachol**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd diweddar y Bwrdd Masnachol. Nodwyd fod llawer o amser y Bwrdd wedi ei neilltuo i drafod sefyllfa Loteri Cymru.

**Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 06.03.18.

Prif waith y cyfarfod oedd trafod cynllun gwaith PWC, yr archwilwyr mewnol. Nodwyd fod nifer o adroddiadau ar y gweill, ac y bydd y Pwyllgor yn cael cyfle i drafod yr adroddiadau a'r Gofrestr Risg strategol yn ei gyfarfod nesaf.

13. **Adroddiad y Wifren**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

14. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth, a nodwyd y bydd patrwm cyfarfodydd y Bwrdd yn dychwelyd i'r trydydd dydd Iau o fis Ebrill.

Cyfeiriwyd at amserlen dosbarthu nifer o bapurau'r Bwrdd, a phwysleisiwyd yr angen i bapurau gael ei dosbarthu fan hwyraf ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y Bwrdd, oni nodir fod rheswm da dros ddarparu papur hwyr.

15. **Adroddiad Cwynion**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a nodwyd pedwar cwyn cyfredol a'r camau gan y swyddogion mewn ymateb.]

16. **Aelodaeth y Pwyllgor Cwynion**

Nodwyd fod y pwyllgor wedi derbyn cais am adolygiad mewnol.

**[Crynodeb:** Cyfeiriodd GH at ei gyfres wleidyddol arfaethedig ar S4C. Gadawodd y cyfarfod a thrafodwyd oblygiadau ei aelodaeth o Fwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cwynion. Nodwyd y canfyddiad posibl o wrthdaro buddiannau ond awgrymwyd y byddai modd sicrhau na fyddai GH yn gweithredu mewn modd fyddai'n creu gwrthdaro.

Yn dilyn y trafodaethau penderfynwyd fel y ganlyn:

- Y dylid penodi HHE ac SL yn aelodau o'r Pwyllgor Cwynion;
- Oherwydd canfyddiad posibl parthed gwrthdaro buddiannau rhwng gwaith y Pwyllgor a chyfrifoldeb cyflwynwyr rhaglenni gwleidyddol, na ddylai GH barhau yn aelod o'r Pwyllgor; a
- Mae'r Bwrdd yn awyddus i GH barhau i weithredu fel aelod llawn o'r Bwrdd, ond rhaid bod mesurau priodol yn eu lle i ddelio ag unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro.]

17. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth.

18. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.